# Ysgol Gyfun Gymraeg Rhydywaun

**SCHOOL UNIFORM - YEARS 7 – 11**

Girls:
• Plain white blouse, long or short sleeve with buttons up to the neck
• Official school tie
• Official red school jumper with school badge
• Plain black skirt no shorter than the top of the knee
• Plain black trousers (no jean style trousers, corduroy trousers, velvet trousers, hipsters, tight trousers or ski pants)
• Black tights or black socks to be worn with school skirt
• Black socks to be worn with school trousers
• Black, gold, or silver hair clips and bands
• Plain black shoes. Heels no higher than 4cm (pupils are permitted to wear boots under trousers during periods of snow only. No trainers, no open-toe sandals)
• Black or dark blue winter coat or rain coat - a bright stripe is permissible for visibility during the winter
• No Jewellery
No unnatural hair colours and no patterns or lines shaved in hair.

Boys:
• Plain white long sleeve or short sleeve shirt. No badges such as rugby club badges on shirts
• Official school tie
• Official red school jumper with school badge
• Plain black trousers
• Plain black socks
• Plain black shoes (Pupils are permitted to wear boots under their trousers during periods of snow only. No trainers)
• Black or dark blue winter coat or rain coat - a bright stripe is permissible for visibility during the winter
• No Jewellery
No unnatural hair colours and no patterns or lines shaved in hair.

At **Ysgol Gyfun Gymraeg Rhydywaun** we believe that the school uniform:-

- provides a sense of identity, community and cohesion within the school;
- supports positive behaviour and school discipline;
- ensures pupils dress appropriately for learning activity;
- removes peer pressure to dress in particular fashions;

- enablse pupils of all backgrounds to share in a common identity which embraces their particular requirements;

- helps reduce inequalities between pupils and help reduce some triggers for bullying;

- benefits safeguarding and attendance policies through helping to identify truants;

- assists identification of strangers on school premises; and

- supports and promote the ethos of the school.

It is the responsibility of the school's Governing Body to ensure that we comply with the July 2019 Statutory Guidance on school uniform.

Since March 2020, the Governing Body has made an adjustment to the uniform in order to ensure that we have one, official and affordable school uniform. The change was made following a lengthy decision-making process between October 2019 and March 2020. One part of the process was a consultation with stakeholders. The results of the consultation were taken into account during the decision-making process as well as other important considerations in order to ensure that the uniform was not only affordable, but also continued to reinforce and promote the ethos of the school and support positive behaviour and positive attitudes to learning. *Further information regarding the consultation is available from the school.*

Section 3 of the Statutory Guidance informed the main considerations and decisions.

*The Welsh Government recognises that school uniform and other items that are required to be purchased in accordance with a school uniform policy can be a financial burden, particularly for low income and large families. Consequently, when introducing a new uniform, or considering changes in uniform requirements, governing bodies will give high priority to cost and affordability. No school uniform should be so expensive as to leave pupils or their families feeling unable to apply for admission or to attend a particular school.*

*Governing bodies should consider the following in the context of keeping down the cost of school uniform:*

- *Only stipulate basic items and colours but not styles so that items can be bought from multiple retail chains at reasonable prices and not just from one authorised supplier.*

- *Avoid high-cost items such as blazers and caps.*

- *Requiring school logos on polo shirts, jumpers, blazers and PE kit, obtainable from specialist suppliers can be costly. Schools should consider the necessity of such items, weighing up the balance of having a distinct identity, whilst ensuring that uniform items are widely available and affordable. If a governing body determines that uniform items with logos are required,*

*schools should limit logos to one item (reasonably priced and widely available) which is worn frequently, e.g. a sweater or cardigan.*

- *If a school requires a logo to be worn on a second item of clothing (e.g. a jumper and trousers) they should consider providing the second logo free of charge as a badge that could be iron-on or sew-on.*

- *The purchase of logos to sew, iron or stick onto items of clothing should be considered as an option to reduce costs where a governing body determines logos are considered to be a necessary part of school uniform.*

- *Avoid variation in colours and style for different year groups as this is expensive for parents and limits the scope for second-hand sale or handing on to siblings.*

- *Have easily washable items: dry clean only items should be avoided.*

- *Limit the frequency of uniform changes as this can be costly for parents and limits*

*the scope for re-sale or handing on to siblings or other pupils.*

- *Consider the cost and availability of non-standard sizes.*

- *If there is a change to a school uniform policy, introduce a transitional period so that old uniforms can be worn for at least a year before a total changeover to a new uniform and consider if items of the old uniform can be retained in the new policy.*

- *School governing bodies should consider whether there is a need for different uniforms for summer and winter. School uniforms should be as economical as possible and summer uniforms are only worn for a matter of weeks.*

- *Consider other options to improve access and affordability such as school uniform exchange or recycling schemes where parents can donate unwanted or outgrown items in good condition to be made available to other families.*

As a result of the change, the official uniform of Ysgol Gyfun Gymraeg Rhydywaun is as above. The red polo-shirt with the school logo is no longer part of the uniform.

Due to the Covid-19 pandemic the decision was taken to delay the implementation of the change until September 2021. This allows more time for pupils, parents / carers to ensure they have the correct, official school uniform. The official suppliers of the uniform are also aware and should not make the red polo shirt an option for purchase.

**PDG Access –** Financial assistance is available through the PDG Access Grant for those families who meet the criteria.

The grant focuses on the entry point into education and the transition into secondary school. The Funding is available to pupils who are eligible for free school meals entering:

- Reception class of maintained primary schools;
- Year 3 of maintained secondary schools;
- Year 7 of maintained secondary schools;
- Year 10 of maintained secondary schools; or
- pupils in special schools, special needs resource bases and pupil referral units who are aged 4 or aged 11 on entry.

The Funding is also available to all looked after children of compulsory school age. The school also supports pupils in other year groups. More information on the grant is available from the school.

The Governing Body is now working to ensure that the P.E. kit is also altered to ensure lower costs and affordability. More information will be made available during the 2021-22 academic year.

GWISG YSGOL BLWYDDYN 7 – 11

Merched:
• Blows ysgol wen blaen, llewys byr, neu llewys hir gyda botwm lan i'r gwddf
• Tei swyddogol yr ysgol
• Siwmper goch swyddogol yr ysgol â bathodyn yr ysgol arni
• Sgert ddu blaen ddim byrrach na thop y penglin
• Trowsus du plaen (Dim 'jeans', trowsus melfed, hipsters, trowsus tynn neu drowsus sgio)
• Teits du, neu sanau du plaen gyda sgert
• Sanau du gyda throwsus
• Addurniadau gwallt e.e clip, band du, coch, aur, neu arian
• Esgidiau du plaen sodlau ddim yn uwch na 4cm (caniateir boots wedi gwisgo o dan drowsus yn ystod tywydd eira yn unig. Dim esgidiau ymarfer, dim sandalau pen agored)
• Cot gaeaf neu got law ddu neu las tywyll-streipen lachar yn dderbyniol
• Dim lliwiau gwallt annaturiol
• Dim tlysau
Ni chaniateir lliw gwallt na steil gwallt annaturiol.

Bechgyn:
• Crys gwyn plaen llewys byr neu hir. Dim bathodynnau e.e. bathodyn clwb rygbi ar y crys
• Tei swyddogol yr ysgol
• Siwmper goch swyddogol yr ysgol â bathodyn yr ysgol arni
• Trowsus du plaen
• Sanau du plaen
• Esgidiau du plaen (caniateir boots wedi gwisgo o dan trowsus yn ystod tywydd eira yn unig)
• Dim esgidiau ymarfer
• Cot gaeaf neu got law ddu neu las tywyll – streipen lachar yn dderbyniol
• Dim tlysau
Ni chaniateir lliw gwallt na steil gwallt annaturiol.

Yn **Ysgol Gyfun Gymraeg Rhydywaun** credwn fod y wisg ysgol yn: -

- creu ymdeimlad o hunaniaeth, cymuned a chydlyniant yn yr ysgol;
- cefnogi ymddygiad cadarnhaol a disgyblaeth yn yr ysgol;
- sicrhau bod disgyblion yn gwisgo'n briodol ar gyfer gweithgareddau dysgu;
- dileu'r pwysau ymhlith cyfoedion i wisgo dillad o ffasiwn benodol;

- sicrhau bod disgyblion o bob cefndir yn rhannu’r un hunaniaeth sy'n cynnwys eu gofynion penodol;

- helpu i leihau'r anghydraddoldeb rhwng disgyblion a helpu i leihau rhai ffactorau sy'n arwain at fwlio;

- bod o fudd o ran polisïau diogelu a phresenoldeb drwy helpu i nodi triwantiaid;

- helpu i nodi dieithriaid ar safle'r ysgol;

- cefnogi a hyrwyddo ethos yr ysgol.

Cyfrifoldeb Corff Llywodraethol yr ysgol yw sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Canllawiau Statudol Gorffennaf 2019 ar wisg ysgol.

Er mis Mawrth 2020, mae'r Corff Llywodraethol wedi gwneud addasiad i'r wisg er mwyn sicrhau bod gennym un wisg ysgol swyddogol a fforddiadwy. Gwnaed y newid yn dilyn proses hir o wneud penderfyniadau rhwng Hydref 2019 a Mawrth 2020. Un rhan o'r broses oedd ymgynghori â rhanddeiliaid. Ystyriwyd canlyniadau'r ymgynghoriad yn ystod y broses benderfynu yn ogystal ag ystyriaethau pwysig eraill er mwyn sicrhau bod y wisg nid yn unig yn fforddiadwy, ond hefyd yn parhau i atgyfnerthu a hyrwyddo ethos yr ysgol a chefnogi ymddygiad cadarnhaol ac agweddau cadarnhaol at ddysgu. *Ceir rhagor o wybodaeth am yr ymgynghoriaid gan yr ysgol.*

Llywiodd Adran 3 o'r Canllawiau Statudol y prif ystyriaethau a phenderfyniadau.

*Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gall prynu gwisg ysgol ac eitemau eraill yn unol â pholisi gwisg ysgol fod yn faich ariannol, yn arbennig i'r rheini o deuluoedd incwm isel a theuluoedd mawr. O ganlyniad, wrth gyflwyno gwisg ysgol newydd neu ystyried newid gofynion y wisg ysgol, bydd cyrff llywodraethu yn rhoi blaenoriaeth uchel i ystyriaethau'n ymwneud â chost a fforddiadwyedd. Ni ddylai unrhyw wisg ysgol fod mor ddrud fel bod disgyblion neu eu teuluoedd yn teimlo na allant wneud cais am le mewn ysgol benodol neu na allant fynd i ysgol benodol.*

*Dylai cyrff llywodraethu ystyried y canlynol er mwyn ceisio cadw cost gwisg ysgol yn isel:*

- *Pennu eitemau a lliwiau sylfaenol yn unig ac nid steil, fel y gellir prynu eitemau mewn siopau manwerthu amrywiol am bris rhesymol ac nid gan un cyflenwr awdurdodedig yn unig.*

- *Osgoi eitemau cost uchel megis blasers a chapiau.*

- *Gall ei gwneud yn ofynnol i ddisgyblion wisgo crysau polo, siwmperi, blasers a gwisg addysg gorfforol â logo'r ysgol arnynt, y gellir eu prynu gan gyflenwyr arbenigol, fod yn gostus. Dylai ysgolion ystyried pa mor angenrheidiol yw eitemau o'r fath, gan gydbwyso’r dymuniad i gael hunaniaeth benodol â’r dymuniad i sicrhau bod eitemau gwisg ysgol ar gael yn hawdd ac yn fforddiadwy. Os bydd corff llywodraethu yn*

*pennu bod yn rhaid cael logo ar y wisg ysgol, dylai ysgolion gyfyngu'r logo i un eitem (sydd ar gael yn hawdd ac am bris rhesymol) a gaiff ei gwisgo'n aml, e.e. crys chwys neu gardigan.*

- *Os bydd ysgol yn ei gwneud yn ofynnol i ddisgyblion wisgo ail ddilledyn â logo'r ysgol arno (e.e. siwmper neu drowsus), dylai ystyried darparu'r ail logo am ddim fel bathodyn y gellir ei smwddio ar ddillad neu ei wnïo ar yr eitem.*

- *Dylid ystyried y posibilrwydd o brynu logos i'w gwnïo, eu smwddio neu eu glynu wrth ddillad er mwyn lleihau costau pan fydd corff llywodraethu yn penderfynu bod logos yn rhan angenrheidiol o'r wisg ysgol.*

- *Dylid osgoi amrywio'r lliw a'r steil ar gyfer grwpiau blwyddyn gwahanol am fod hyn yn ddrud i rieni ac yn golygu na ellir gwerthu'r dillad yn ail-law na'u rhoi i frodyr neu chwiorydd.*
- *Dewis eitemau y gellir eu golchi'n hawdd: dylid osgoi eitemau i'w sychlanhau yn unig.*
- *Cyfyngu ar ba mor aml y caiff y wisg ysgol ei newid oherwydd gall hyn fod yn gostus i rieni ac mae'n cyfyngu ar eu gallu i werthu'r dillad yn ail-law neu eu rhoi i frodyr neu chwiorydd.*
- *Ystyried cost ac argaeledd meintiau nad ydynt yn rhai safonol.*
- *Os caiff y polisi gwisg ysgol ei newid, dylid cyflwyno cyfnod pontio fel y gellir gwisgo'r hen wisg ysgol am o leiaf flwyddyn cyn newid yn llwyr i'r wisg ysgol newydd, ac ystyried a ellir cadw eitemau o'r hen wisg ysgol yn y polisi newydd.*
- *Dylai cyrff llywodraethu ysgolion ystyried a oes angen gwisg ysgol wahanol ar gyfer yr haf a'r gaeaf. Dylai gwisg ysgol fod mor ddarbodus â phosibl a dim ond am fater o wythnosau y caiff gwisg ysgol ar gyfer yr haf ei gwisgo.*
- *Ystyried opsiynau eraill i wella fforddiadwyedd a'r gallu i gael gafael ar wisg ysgol megis cynlluniau cyfnewid neu ailddefnyddio gwisg ysgol lle y gall rhieni roi eitemau nad oes eu hangen mwyach neu ddillad sy'n rhy fach, sydd mewn cyflwr da, er mwyn eu cynnig i deuluoedd eraill.*

O ganlyniad i'r newid mae gwisg Ysgol Gyfun Gymraeg Rhydywaun fel yr uchod. Nid yw'r crys polo coch gyda logo'r ysgol bellach yn rhan o'r wisg.

Yn sgil pandemig Covid-19, penderfynwyd gohirio gweithredu'r newid tan fis Medi 2021. Mae hyn yn caniatáu mwy o amser i ddisgyblion, rhieni / gofalwyr sicrhau bod ganddynt y wisg ysgol gywir, swyddogol. Mae cyflenwyr swyddogol y wisg hefyd yn ymwybodol ac ni ddylent wneud y crys polo coch yn opsiwn i'w brynu.

**Mynediad GAD –**

Mae cymorth ariannol ar gael trwy'r Grant Mynediad GAD ar gyfer y teuluoedd hynny sy'n cwrdd â'r meini prawf.
Mae'r grant yn canolbwyntio ar y pwynt mynediad i addysg a'r cyfnod pontio i'r ysgol uwchradd. Mae'r Cyllid ar gael i ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim sy'n mynd i mewn i:

- Dosbarth derbyn ysgolion cynradd a gynhelir;
- Blwyddyn 3 ysgolion uwchradd a gynhelir;
- Blwyddyn 7 ysgolion uwchradd a gynhelir;
- Blwyddyn 10 ysgolion uwchradd a gynhelir; neu
- disgyblion mewn ysgolion arbennig, canolfannau adnoddau anghenion arbennig ac unedau atgyfeirio disgyblion sy'n 4 oed neu'n 11 oed wrth fynd i mewn.

Mae'r Cyllid hefyd ar gael i bob plentyn sy'n derbyn gofal o oedran ysgol gorfodol. Mae'r ysgol hefyd yn cefnogi disgyblion mewn grwpiau blwyddyn eraill. Mae mwy o wybodaeth am y grant ar gael gan yr ysgol.
Mae'r Corff Llywodraethol bellach yn gweithio i sicrhau bod y wisg Addysg Gorfforol hefyd yn cael ei newid i sicrhau costau is. Bydd mwy o wybodaeth ar gael yn ystod yflwyddyn academaidd nesaf 2021-22.